# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Newton Court**

**Cartref Preswyl Newton Court**
**Newton Court, Highpool Lane, Newton**
**Abertawe**
**SA3 4UX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

**12/09/2024**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Newton Court

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Christadelphian Care Homes |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Ionawr 2024 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon ardderchog sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Newton Court. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn eithriadol o hapus gyda'r gofal a'r cymorth a roddir. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael safon dda o gefnogaeth gan y tîm rheoli. Mae'r prosesau cynllunio gofal yn gadarn ac yn drylwyr. Ceir lefelau staffio da sy'n cyfateb i'r hyn a nodir yn y datganiad o ddiben. Mae tîm o weithwyr gofal medrus sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio yn y cartref. Ceir tîm rheoli ymroddedig a phrosesau sicrhau ansawdd effeithiol iawn ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae wedi'i addurno i safon uchel. Ceir ardal allanol fawr sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac y gall y bobl ei defnyddio'n ddiogel. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli yn unol â chwaeth yr unigolyn. Trefnir gweithgareddau buddiol a gwerthfawr y gall y bobl gymryd rhan ynddynt. Dywedodd y bobl wrthym fod amrywiaeth a dewis da iawn o fwyd. Mae'r bobl yn ddiogel ac mae'r staff yn deall pwysigrwydd diogelu a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r adeilad yn ddiogel a chaiff pob mynedfa ac allanfa eu cadw ar glo, ac mae larwm wedi'i osod ar yr adeilad. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau da ar waith ac mae'r cartref yn lân, yn drefnus ac yn daclus.

## Llesiant

Caiff iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu cefnogi a'u cynnal i safon eithriadol o uchel yn Newton Court. Mae'r staff a'r rheolwyr yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i'r gwaith y maent yn ei wneud. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y cymorth a roddir a dull gofalgar y staff. Dywedodd perthnasau wrthym fod y cyfathrebu â'r gwasanaeth a'r cyfathrebu gan y gwasanaeth yn dda. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Cafwyd llawer o sylwadau gan y bobl a'r staff am ddiwylliant ac ymdeimlad cynnes, cyfeillgar a theuluol y gwasanaeth. Mae pobl â chredoau Cristnogol yn cael safon eithriadol o ofal bugeiliol a gweithgareddau crefyddol wedi'u trefnu. Mae prosesau cadarn a thrylwyr ar waith ar gyfer asesu, monitro ac adolygu anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae cyfathrebu da â gwasanaethau iechyd cymunedol lleol, i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau buddiol ar gael i'r bobl yn y gwasanaeth a'r tu allan iddo.

Mae'r bobl yn byw mewn llety o safon uchel iawn. Mae'r gwasanaeth yn gyfforddus ac yn lân ac mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli yn unol â chwaeth yr unigolyn. Mae'r cartref wedi cael ei wella a'i ddiweddaru ymhellach ers yr arolygiad blaenorol. Mae safonau uchel iawn o ran paratoi a storio bwyd. Roedd y bobl wedi canmol y dewis o fwyd a safon y bwyd a ddarperir. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn raenus ac mewn cyflwr da. Mae gerddi mawr dymunol ar gael i'r bobl eu mwynhau.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch ac mae'r gwasanaeth yn clywed llais y bobl ac yn gwrando arno. Ymgynghorir â'r bobl yn rheolaidd ynghylch eu hoffterau, eu dewisiadau a'u hanghenion cymorth. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn rhoi arweiniad clir i'r staff er mwyn iddynt ddeall eu rôl a sut y dylent roi gofal a chymorth. Mae'r datganiad o ddiben presennol yn gyson â'r gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan y rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant craidd ar amrywiaeth eang o bynciau sy'n gysylltiedig â gofal, yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd wedi'u cynllunio.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso am fod y gweithwyr gofal a'r rheolwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu ac yn gwybod sut i godi pryderon os bydd angen iddynt wneud hynny. Roedd pob un o'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn dangos gwybodaeth dda am weithdrefnau diogelu ac ymwybyddiaeth dda ohonynt. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau ac amserlenni glanhau cadarn ar waith i leihau risg.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon ardderchog yn Newton Court. Gwnaethom siarad â phedwar person a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth a dau berthynas yn ystod yr arolygiad. Dywedodd un unigolyn wrthym *“All the staff are lovely and very caring. There are always lots of activities here.”* Dywedodd un perthynas*“They treat people as individuals. Everything is on a personal level here. They really care and accommodate”.* Gwelwyd rhyngweithio cadarnhaol a pharchus rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Cawsom hefyd dri holiadur adborth wedi'u cwblhau gan y bobl a'u perthnasau yn ystod yr arolygiad, yr oedd pob un ohonynt yn canmol y gofal a'r cymorth a roddir yn fawr.

Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu dogfennu'n glir mewn cynllun personol ar-lein manwl a thrylwyr, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd y sampl o ffeiliau cymorth personol a welwyd yn cynnwys gwybodaeth bersonol gadarn iawn am hoff bethau a chas bethau, anghenion gofal a chymorth a risgiau. Mae'r rheolwyr yn cwblhau ffurflenni adolygu cynlluniau personol ar wahân sy'n cynnwys y bobl ac unigolion perthnasol eraill yn llawn. Mae system 'gweithiwr allweddol' newydd yn cael ei chyflwyno; mae hyn yn golygu bydd gweithiwr gofal penodol yn cael ei glustnodi ar gyfer pob unigolyn. Pan gaiff y system ei chyflwyno'n llawn, bydd yn gwella gwaith cynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chanlyniadau i'r bobl ymhellach. Ceir gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal iechyd fel gofal briwiau pwyso ac asesiadau risg penodol i'r staff eu dilyn. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau effeithiol iawn â'r feddygfa leol. Mae gweithdrefnau cyn derbyn trylwyr a chadarn ar waith er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl yn llawn.

Ceir gofal a chymorth bugeiliol eithriadol i'r rhai y mae eu credoau Cristnogol yn bwysig iddynt. Darperir y gwasanaeth i aelodau'r gymuned Gristadelffaidd yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl. Caiff y bobl eu cefnogi i fynychu gwasanaethau'r eglwys leol. I'r rhai na allant wneud hynny, darperir darllediadau byw ar sgrin fawr yn y cartref. Ceir nifer o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar gredoau crefyddol cysylltiedig fel darlleniadau o'r Beibl, canu emynau, sesiynau gweddïo, ac ati. Caiff y gwasanaeth hefyd ei gefnogi gan wirfoddolwyr o'r eglwys leol, sy'n ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn cynnig cymorth gyda gweithgareddau megis celf, garddio, canu, ac ati.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso am fod y rheolwyr a'r gweithwyr gofal yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu ac yn gwybod sut i godi pryderon pe bai angen iddynt wneud hynny. Roedd pob un o'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn dangos gwybodaeth dda am weithdrefnau diogelu ac ymwybyddiaeth dda ohonynt. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau da ar waith i sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl. Gwelsom fod prosesau meddyginiaethau cadarn a diogel ar waith yn y gwasanaeth a bod staff cymwys hyfforddedig yn rhoi meddyginiaethau ac yn cadw cofnodion priodol.

## Yr Amgylchedd

Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd glân, cartrefol a diogel. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u haddurno'n dda, maent yn lân ac wedi'u personoli yn unol â chwaeth yr unigolyn. Mae'r bobl yn hoffi byw yn y cartref, ac roeddent yn siarad am eu hystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol mewn modd cadarnhaol. Gwelsom fod y drysau allanol i mewn ac allan o'r cartref yn ddiogel. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus ac mae wedi'i gynnal a'i gadw a'i addurno'n eithriadol o dda. Ers yr arolygiad diwethaf mae mwy o waith wedi cael ei gynnal, gan gynnwys gorchuddion newydd ar y lloriau, ystafell weithgareddau newydd ar y llawr cyntaf a thŷ haf newydd yn yr ardd. Mae arwyddion dwyieithog, Cymraeg a Saesneg, ym mhob rhan o'r cartref. Gwelsom bobl yn mwynhau ardal eistedd/bwyta cymunedol â heulfan fawr ar wahân. Gwelsom bobl yn cymryd rhan mewn sesiwn gelf yn yr ardal eistedd. Gwnaethom edrych ar y gegin a'r ardaloedd paratoi bwyd a chawsom wybod bod gan y cartref sgôr hylendid bwyd o bump ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod safonau uchel iawn ar waith ar gyfer storio bwyd, trin bwyd a glendid. Mae gan staff y gegin wybodaeth dda am anghenion deietegol y bobl gan gynnwys anghenion arbenigol megis diabetes neu anawsterau llyncu bwyd. Dywedodd pob un o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau'r amrywiaeth o brydau bwyd a'r dewis a gynigir. Gwnaethom edrych ar ardal allanol helaeth y cartref a'r iard, a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Cawsom wybod bod y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored megis garddio a thyfu llysiau. Mae gan y cartref ystafell wely hunangynhwysol ar wahân, y mae perthnasau sy'n ymweld â'r cartref wedi'i defnyddio yn y gorffennol. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol ac un o'r Ymddiriedolwyr wrthym am y cynlluniau i wella'r ardal allanol a chreu amgylchedd mwy diogel i bobl sy'n byw gyda dementia yn y dyfodol.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae prosesau cadarn iawn ar waith i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cwblhau a'u dogfennu. Mae tystysgrifau diogelwch ar gyfer gosodiadau nwy, gweithredu'r lifft, larymau tân, teclynnau codi a slingiau, a phrofi dyfeisiau cludadwy (PAT) ar waith. Gwelsom daenlen gynhwysfawr fanwl a oedd yn cynnwys trosolwg o'r holl waith cynnal a chadw, damweiniau, prosesau rheoli heintiau, gweithdrefnau tân a materion iechyd a diogelwch yn y cartref. Gwelsom fod cynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol ac yn unol â rheoliadau rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH). Ceir ystafell fawr ddynodedig i olchi dillad, a chaiff eitemau brwnt eu cadw ar wahân i eitemau glân, yn unol â phrosesau rheoli heintiau da. Caiff y larymau tân eu gwirio'n rheolaidd a chaiff y gwiriadau hyn eu dogfennu'n briodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio a'i lywodraethu'n effeithiol iawn gan y tîm rheoli. Mae'r darparwr wedi penodi unigolyn lleol yn Ymddiriedolwr, sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn adrodd i'r bwrdd rheoli a'i gyd-Ymddiriedolwyr. Ceir polisïau a gweithdrefnau manwl iawn a chadarn sy'n ymdrin â meysydd megis diogelu a chwynion. Mae'r holl bolisïau a welwyd yn drylwyr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwyr yn chwarae rhan weithgar a gweladwy yn y gwasanaeth. Mae Unigolyn Cyfrifol newydd wedi cael ei benodi'n ddiweddar, sef y rheolwr blaenorol, ac felly mae'n adnabod y gwasanaeth yn eithriadol o dda. Dywedodd un unigolyn wrthym *“the managers are lovely and nothing is too much trouble”.* Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau a phrosesau mewnol ac allanol cadarn iawn ar gyfer sicrhau ansawdd i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth a ddarperir o ansawdd uchel iawn ac yn ddiogel. Mae rheolwr rhan amser yn gweithio ochr yn ochr â'r dirprwy ac uwch-weithiwr gofal. Mae'r datganiad o ddiben presennol yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr a staff rheolaidd, yn ogystal â chyfarfodydd trosglwyddo dyddiol. Gwelsom adroddiadau ysgrifenedig a oedd yn cadarnhau hyn, a dywedodd y rheolwr wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol yn gefnogol iawn ac yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol rhwng y rheolwyr a'r staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref. Gwnaethom ddarllen adroddiadau, megis yr adolygiadau o ansawdd y gofal, sy'n trafod meysydd megis ymgynghori â'r bobl, staff, gwella ansawdd, diogelu ac adeiladau ac ystafelloedd, ac sy'n cynnwys camau gweithredu cysylltiedig clir. Ceir cyfathrebu effeithiol iawn ar draws y gwasanaeth, gyda chylchlythyr, canllaw ysgrifenedig manwl i'r gwasanaeth, a chyfarfodydd preswylwyr rheolaidd.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff hyfforddedig sy'n cael eu rheoli'n dda. Gwnaethom siarad â thri gweithiwr gofal yn ystod yr arolygiad, a chawsom holiadur adborth gan y staff hefyd. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn ar y gefnogaeth a gafwyd gan y rheolwyr, y diwylliant yn y gwasanaeth ac ansawdd yr hyfforddiant a ddarparwyd. Dywedodd un aelod o'r staff gofal wrthym *“Very well supported. There is always support and the office door is always open. I feel very well supported”.* Dywedodd gweithiwr gofal arall *“It’s lovely here, like a family, and we all help each other”*. Caiff cofnodion y staff eu cadw mewn cabinet ffeilio dan glo mewn swyddfa. Mae'r cofnodion yn dangos bod aelodau newydd o'r staff gofal yn cael cyfnod sefydlu trylwyr sy'n gyson â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF). Mae'r staff yn cael hyfforddiant trylwyr ar bynciau fel gofal dementia, cymorth cyntaf brys, diogelu, ac ati. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth recriwtio briodol a thystiolaeth bod gwiriadau wedi cael eu cynnal gan gynnwys tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (rheoleiddiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru). Ceir lefelau cydymffurfio da o ran cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau ar gyfer y staff.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/11/2024